

HND Specialist Make Up



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio mewn colur ar gyfer ffilm, teledu a theatr.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Oes gennych chi ddiddordeb proffesiynol mewn colur theatr neu ffilm
- ... Ydych chi'n greadigol
- ... Ydych chi'n weithgar ac yn ymroddedig

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs dwy flynedd Lefel 4/5 hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y rheiny sydd â diddordeb proffesiynol mewn colur theatr neu ffilm. Mae'n arbenigo mewn datblygu sgiliau uwch a'r wybodaeth angenrheidiol i weithio ym myd ffilm, teledu a theatr.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cwmpasu unedau, gan gynnwys:

Astudiaethau Cyd-destunol
Arfer proffesiynol celfyddydau creadigol
Sgiliau ymchwil y celfyddydau creadigol
Rheoli busnes creadigol
Dylunio ac adeiladu mwgwd
Archwilio dylunio ar gyfer colur mewn celfyddydau perfformio
Gwallt a cholur cyfnod
Wigiau a chudynnau ffug ar gyfer y celfyddydau creadigol (gwneud wig llawn)
Technegau a chymwysiaid dylunio ar gyfer y perfformiwr
Cyd-destun hanesyddol yn y celfyddydau perfformio
Paratoi, prosesu a chynhyrchu yn y celfyddydau creadigol (paentio corff, castio bywyd a prostheteg effeithiau arbennig)
Rheoli cynhyrchiad yn y celfyddydau creadigol
Datblygiad personol a phroffesiynol
Prosiect ymchwil
Gwallt a cholur teledu a ffilm

Mae sgiliau ymarferol yn cael eu hasesu drwy gyfres o asesiadau ymarferol sy'n cael eu hamseru wedi'u gosod o friff sy'n gysylltiedig â'r diwydiant, sy'n cael eu cefnogi gyda chyfnodolyn helaeth o ymchwil a chofnod datblygu. Mae unedau theori yn cael eu hasesu drwy astudiaethau achos, cyfnodolion ymchwil a chyflwyniadau.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau, byddwch yn cyflawni'r Edexcel HND mewn Celfyddydau Perfformio (Colur Arbenigol) - Lefelau 4 a 5, fodd bynnag, byddwch yn cyflawni HNC mewn Celfyddydau Perfformio ar ôl y flwyddyn gyntaf o astudio.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael eich derbyn ar y cwrs hwn, bydd angen i chi feddu ar 4 cymhwyster TGAU gradd A* - C gan gynnwys Saesneg a Chelf, cymhwyster Lefel 3 mewn Colur Theatrig a'r Cyfryngau (proffil teilyngdod galwedigaethol o leiaf) neu brofiad diwydiannol cyfatebol.

Mae'r ddarpariaeth yn digwydd ar y campws ac oddi ar y safle ar gyfer rhywfaint o hyfforddiant meistr felly bydd angen i chi wneud trefniadau ar gyfer teithio o bryd i'w gilydd. Disgwylir priodoleddau ymroddedig, creadigol ac ysbrydoledig yn y dysgwr.

Beth sy'n digwydd nesaf?



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ar ôl cwblhau'r HNC byddwch yn symud ymlaen i'r HND, ac yna BA (Anrh) mewn Colur y Cyfryngau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd disgwyl i chi i brynu gwisg arbennig a phecyn wig a fydd yn costio tua £250

Efallai y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â theithio a llety ar gyfer hyfforddiant Meistr.

Cod gwisg:

Gwisg arbennig

Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

